

Lleihau dibyniaeth ar gyffuriau anthelminig ar gyfer mamogiaid yn ystod y cyfnod wyna drwy ddefnyddio triniaethau wedi'u targedu

Cefndir

Mae rhoi triniaeth llyngyr o gwmpas amser wyna yn dal i fod yn rhywbeth sy'n cael ei wneud gan fwyaf y ffermwyr defaid yn y DU. Y rheswm dros hyn yw bod system imiwnedd mamogiaid yn gwanhau wrth ddynesu at wyna, ac mae hyn yn galluogi llyngyr yn y perfedd i gynhyrchu llawer mwy o wyau. Mae'r wyau'n cael eu hysgarthu, gan halogi'r borfa sydd wedyn yn cael ei phori gan yr wyna.

Fodd bynnag, mae'r gwanwyn hefyd yn adeg pan fo niferoedd llyngyr yn debygol o fod yn uchel ym mherfedd y famog, ar ôl bod ynghwsg dros y gaeaf. Mae hynny'n golygu y gallai trin bob un o'r mamogiaid gyda thriniaeth llyngyr arwain at ddethol ar gyfer ymwrthedd anthelminig. Er mwyn lliniaru'r pryderon hyn, mae SCOPS wedi argymhell y dylid gadael o leiaf 1 o bob 10 o'r mamogiaid iachaf heb ei thrin.

Wrth i nifer yr achosion o ymwrthedd gwrthficrobaidd ar ffermydd y DU gynyddu, mae angen lleihau'r nifer sy'n cael eu trin ymhellach, ond mae'n rhaid i ni ddarparu cyngor yn seiliedig ar dystiolaeth i ffermwyr defaid ynglŷn â sut i dargedu'r mamogiaid hynny sydd yn fwyaf tebygol o gynhyrchu'r lefelau uchaf o halogiad. Cafwyd pryder hefyd ynglŷn â defnyddio moxidectin 2% LA ar bob mamog yn ystod y cyfnod wyna, ac mae hyn wedi arwain at gytundeb rhwng SCOPS a Zoetis i greu canllawiau newydd ar gyfer y driniaeth weithredol hon. Un o brif bwyntiau'r cyngor hwnnw yw na ddylid trin bob mamog, a bod angen targedu'r mamogiaid hynny sy'n cynhyrchu lefelau uchel o halogiad.



Amcanion y Prosiect

Gwyddwn nad yw pob mamog yn cynhyrchu'r un faint o halogiad. Mae cyfrifon wyau ysgarthol (FEC) yn amrywio rhwng mamogiaid yn ystod y cyfnod wyna ac mae ffactorau gan gynnwys sgôr cyflwr corff (BCS), maeth, oedran a nifer yr wyna a anwyd, ynghyd ag elfen enynnol, yn gysylltiedig ag ymateb imiwnedd y famog. Nod y prosiect yw cynnal gwaith monitro manwl ar ddiadelloedd masnachol i weld a oes modd i ni ganfod y mamogiaid hynny sy'n cynhyrchu lefel uchel o halogiad, ac felly i leihau'r gyfran sy'n cael eu trin o gwmpas amser wyna heb effeithio'n negyddol ar berfformiad wyna. Y bwriad yw gallu crynhoi'r wybodaeth er mwyn darparu canllawiau ymarferol i gynhyrchwyr eraill allu eu mabwysiadu.



Techion – Offer cyfrifo wyau ysgarthol FECPAK



Mae'r prosiect, sy'n rhedeg o ddechrau 2020 hyd at ganol 2022, yn cynnwys grŵp o 6 ffermwr o bob cwr o Gymru, gan gynnwys y rhai sy'n cadw diadelloedd ucheldir, organig a llawr gwlad. Mae'r grŵp wedi bod yn gweithio gyda'i gilydd ers sawl blwyddyn, gan edrych yn benodol ar sgorio cyflwr corff mamogiaid fel adnodd i reoli'r ddiadell ac fel Dangosydd Perfformiad Allweddol. Maent hefyd wedi ymgysylltu gydag egwyddorion SCOPS ac maent yn anelu at leihau eu

dibyniaeth ar driniaeth anthelminig (triniaeth llyngyr) drwy fonitro a rheoli. Gan ei fod yn cael ei gydnabod bod maeth y famog a'r sgôr cyflwr corff yn effeithio ar gynnydd mewn allbynnau wyau gan famogiaid cyn esgor (PPR), roedd y grŵp eisiau ymchwilio ymhellach i hyn i weld a oes modd lleihau nifer y mamogiaid sy'n cael eu trin â lefelau halogiad ar borfeydd drwy adnabod a thargedu'r mamogiaid hynny sy'n fwyaf tebygol o weld eu hymateb imiwnedd yn dirywio o gwmpas amser wyna. Mae'r grŵp gweithredol hefyd yn cynnwys Zoetis Animal Health gyda Techion, Biobest ac APHA yn cyflenwi'r profion, ynghyd â FECPAK ar bob fferm ar gyfer monitro rheolaidd.

Methodoleg


Yn ystod y flwyddyn gyntaf, mae'r ffermydd wedi monitro grŵp o famogiaid a oedd yn cario gefeilliaid o oddeutu 6 wythnos cyn ŵyna hyd at 8 wythnos ar ôl ŵyna. Cymerwyd samplau ar gyfer cyfrif wyau ysgarthol gan y grŵp bob wythnos er mwyn darparu darlun cyflawn o'r cynnydd cyn esgor o ran graddfa, amseriad a hyd*. O fewn y grŵp, maen nhw hefyd wedi adnabod 10 mamog sentinel ar bob fferm ac mae samplau cyfrif wyau ysgarthol a samplau poer wedi cael eu casglu gan y rhain ar 5 achlysur: 2 cyn ŵyna, un ar adeg ŵyna/yn agos at ŵyna a 2 arall tua 4 ac 8 wythnos ar ôl ŵyna. Mae'r samplau poer yn cael eu dadansoddi ar gyfer gwrthgorff (IgA) sy'n arwydd o ba mor gryf yw system imiwneidd y famog. Er gwaethaf y problemau'n gysylltiedig â sefyllfa COVID-19, mae mwyafrif y samplau wedi cael eu casglu, ac eithrio serwm, gan nad oedd milfeddygon yn gallu mynychu'r ffermydd ar gyfer ymweliadau nad oedd yn achosion brys.

Mae sgôr cyflwr corff a phwysau hefyd wedi cael eu cofnodi lle bo hynny'n bosibl ac roedd yr holl famogiaid yn y grŵp monitro mewn cyflwr da (BCS 3 neu'n uwch) ar y dechrau. Darparwyd argymhellion dogn fel yn briodol yn seiliedig ar ddadansoddiad o'r porthiant a/neu'r bwyd a oedd ar gael yn yr awyr agored ar gyfer pob fferm i leihau unrhyw berygl o gyfyngu ar y maeth wrth agosáu at ŵyna.

Mae pwysau ŵyn yn 8 wythnos oed yn cael eu cofnodi gan fod hyn yn ddangosydd perfformiad allweddol pwysig ar gyfer perfformiad ŵyn mewn gwaith blaenorol a gwblhawyd gan y grŵp. Mae cyfrif wyau ysgarthol hefyd yn cael eu mesur ar y ffermydd i roi syniad o lefelau halogiad ar y porfeydd y mae'r ŵyn yn eu pori.

Canlyniadau hyd yn hyn

Dim ond am gyfnod byr y mae'r prosiect wedi bod yn rhedeg, ond mae data a gasglwyd hyd yma yn amlygu bod amrywiaeth sylweddol rhwng ffermydd o ran graddfa, amseriad a hyd yr cynnydd mewn wyau cyn esgor. Ceir hefyd cadarnhad o amrywiaeth eang rhwng mamogiaid sentinel unigol ar y ffermydd. Ar hyn o bryd, rydym ni'n edrych ar y tueddiadau o ran cyfrif wyau ysgarthol, sgôr cyflwr corff a gwrthgyrff yn y poer. Mae'r amrywiaethau yn y canlyniadau cychwynnol yn awgrymu bod cwmplas sylweddol i leihau nifer y mamogiaid sy'n cael eu trin ar y ffermydd hyn ar yr amod ein bod yn gallu eu hadnabod mewn modd ymarferol y gellir ei ailadrodd.



Enghraifft: Canlyniadau cyfrif wyau ysgarthol un o ffermydd y prosiect ar gyfer y grŵp o famogiaid a oedd yn cael eu monitro a oedd yn cario gefeilliaid. Dim ond mamogiaid gyda sgôr cyflwr corff o <3 oedd yn cael triniaeth drensh o gwmpas amser ŵyna.